Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# LLYWODRAETH CYMRU – Môr a Physgodfeydd

# Amodau sy’n gysylltiedig ag Awdurdodiad Is-ddeddf 40 i bysgota am Gregyn y Brenin (Pecten maximus) gan ddefnyddio llusgrwyd cymeradwy

**Rhoddir yr Awdurdodiad o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru, at ddibenion Is-ddeddf 40 cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru.**

Mae Is-ddeddf 40 cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru bellach yn weithredol fel pe bai wedi'i gwneud mewn offeryn statudol gan Weinidogion Cymru, yn rhinwedd Erthygl 13(1) ac Atodlen 3 o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbedion) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (c.42)).

**MAE'R AWDURDODIAD yn rhoi hawl i’r Person ag Awdurdod (deiliad y drwydded) i:**

bysgota am Gregyn y Brenin (*Pecten maximus*) neu eu cymryd neu eu codi, gan ddefnyddio’r cwch a enwir yn y drwydded a’r llusgrwydi cymeradwy (disgrifir yn Rhan A), o’r ardal a enwir (fel y’i diffinnir yn Rhan B), yn unol â’r amodau yn Rhan C.

## Rhan A – Llusgrwyd Gymeradwy

Mae llusgrwyd gymeradwy yn golygu unrhyw lusgrwyd i ddal cregyn bylchog sy'n cydymffurfio ag Erthygl 10 (Manyleb llusgrwydi cregyn bylchog) o Orchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010 (O.S. 2010/269 (Cy.33)) (“Gorchymyn 2010”).

## Rhan B – Yr Ardal a Ddynodir

Mae'r Awdurdodiad yn gymwys i Ddalgylch cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru fel y'i diffinnir gan Erthygl 1 (fel y’i diwygiwyd) o’r gorchymyn a wnaed gan y Bwrdd Amaethyddiaeth a Physgodfeydd ar 27 Mehefin 1912 (S.R. & O. 1926/1121).

Sylwer y gellid gwahardd llusgrwydo am gregyn bylchog yn yr ardal a ddynodir neu ran ohoni o ganlyniad i ddeddfwriaeth arall (gan gynnwys Gorchymyn 2010)

## Rhan C – Amodau

1. Mae'r Awdurdodiad yn ddilys o ddyddiad rhoi’r drwydded neu o 00:01 ar 1 Tachwedd y tymor cyfredol (pa ddyddiad bynnag sydd hwyraf) tan 23:59 ar 30 Ebrill (diwedd y tymor).

2. Mae’r Awdurdodiad ond yn rhoi’r hawl i’r person ag awdurdod bysgota am Gregyn y Brenin (*Pecten maximus)* a’u cymryd a’u codi, gan ddefnyddio’r cwch a enwir a’r llusgrwydi cymeradwy.

3. Mae'n rhaid i'r person ag awdurdod gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gymwys (gan gynnwys Is-ddeddfau eraill cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru) a chael unrhyw ganiatadau a/neu awdurdodiadau angenrheidiol eraill cyn ymgymryd â'r gweithgareddau a ganiateir gan yr Awdurdodiad.

4. Heb effeithio ar gyffredinolrwydd Amod 3, mae'n rhaid ymgymryd â'r gweithgareddau a ganiateir gan yr Awdurdodiad yn unol â darpariaethau Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010 (O.S. 2010/269 (Cy.33)) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Pysgota Môr (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1332 (Cy.230)).

5. Mae'n rhaid i'r person ag awdurdod gyflwyno adroddiad llawn a gwir (“ffurflen dalfa”) ar yr holl Gregyn y Brenin (*Pecten maximus*) y pysgotwyd amdanynt, a gymerwyd neu a laddwyd o’r ardal a ddynodir (a ddiffinnir yn Rhan B) yn unol â'r Awdurdodiad, erbyn y pumed diwrnod o’r mis canlynol, gan gynnwys manylion y lleoliad, y dyddiad, yr amser, maint (mewn kg) a'r offer a ddefnyddiwyd.

6. Rhaid i’r holl bersonél ar fwrdd y cwch a ddynodir gydymffurfio â’r holl ofynion a chyfarwyddiadau a roddir gan Swyddogion Gorfodi Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru ac unrhyw Swyddog Gorfodi Morol.

7. Rhaid sicrhau bod tystiolaeth bob amser ar gael o’r Awdurdodiad wrth ymgymryd â’r gweithgareddau a ganiateir gan yr Awdurdodiad.

8. **Terfynu** : Gall Gweinidogion Cymru yn ôl eu disgresiwn absoliwt dynnu'r Awdurdodiad yn ôl unrhyw bryd. Lle y bo'n bosibl rhoddir rhybudd ymlaen llaw y bydd yr Awdurdodiad yn cael ei dynnu'n ôl ond, o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol, gellir tynnu'r Awdurdodiad yn ôl yn ddirybudd :

    a) mewn argyfwng;

    b) os byddwch yn torri unrhyw un o amodau'r Awdurdodiad; neu

    c) os byddwch yn achosi unrhyw niwed annerbyniol i'r amgylchedd a chyflwr yr ardal a ddiffinnir yn Rhan B o'r Awdurdodiad.

**9. Dod i ben :** Daw'r Awdurdodiad i ben yn awtomatig, os na chaiff ei derfynu cyn y dyddiad hwnnw**.**

Noder:

1. Maint lleiaf Cregyn y Brenin (*Pecten maximus*) y gellir eu cymryd yw 110mm. Darperir ar gyfer yr isafswm maint yn Erthygl 11 o Orchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010 (O.S. 2010/269 (Cy.33)) fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Pysgota Môr (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1332 (Cy.230)) ac yn Is-ddeddf 14 cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru.

2. Mae Is-ddeddfau cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru bellach yn weithredol fel pe baent wedi'u gwneud mewn offeryn statudol gan Weinidogion Cymru, yn rhinwedd Erthygl 13 ac Atodlen 3 o Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbedion) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (c.42)).

3. Rhaid gosod **dyfais olrhain sy'n gweithio** ar bob cwch sy'n pysgota am gregyn y Brenin yn nyfroedd tiriogaethol Cymru. Bydd y ddyfais yn cydymffurfio â gofynion Gorchymyn Gweithrediadau Llusgrwydo Cregyn Bylchog (Dyfeisiau Olrhain) (Cymru) 2012.

4. Tynnir eich sylw at feysydd tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru. Gellir gweld yr Is-ddeddfau sy'n rheoli maes tanio Aberporth yn: y wefan hon o eiddo'r llywodraeth sy'n dod ag isddeddfau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru ynghyd.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

Llofnod: 

Dyddiad: 14/05/2024

Gareth Bevington
Pennaeth Is-adran Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru